DATGANIAD I'R WASG
Dydd Llun 31 Mai 2010

WYTHNOS LAWN Y LLYWYDD

Un o bobl brysuraf yr Eisteddfod yr wythnos yma fydd Edryd Eynon, Llywydd yr Urdd. Meddai Edryd:

"Dwi'n edrych ymlaen at wythnos lawn iawn. Arwain seremoni Tlws John a Ceridwen ar nos Iau yw'r prif ddyletswydd yn yr Eisteddfod, a bydd hi'n anrhydedd i gael gwobrwyo gwirfoddolwr sy'n gweithio'n ddiwyd i ddatblygu'r Urdd. Mae sawl derbyniad yn ystod yr wythnos, ac rwy'n edrych ymlaen at grwydro'r Maes. Bydd plant Ysgol Bro Brynach yn cystadlu ddydd Mawrth yng nghystadleuaeth y Parti Deulais ac felly byddaf yn brysur yn helpu'r brifathrawes i'w paratoi yfory."

Athro yn Ysgol Bro Brynach, Llanboidy, yw Edryd. Yn gyn-ddisgybl yn Ysgol Beca, Efail Wen ac Ysgol y Preseli mae'n hen gyfarwydd â chystadlu yn Eisteddfod yr Urdd, a'r uchafbwynt oedd ennill y Chwarter Awr o Adloniant gydag Adran Ffynnon Wen yn 1998. Erbyn hyn mae'n un o arweinwyr yr Adran, ac er na fu Ffynnon Wen yn llwyddiannus eleni, mae'n edrych ymlaen at weld cystadlaethau amrywiol yr adrannau a'r ysgolion sy'n cynrychioli Sir Benfro a Chylch Cwm Taf.

Ychwanegwch at hynny fwynhau'r sioeau nos, cadw llygad ar y cystadlaethau llefaru (ei brif ddiddordeb), croesi bysedd am deilyngdod yn y prif seremonïau ac edrych ymlaen at binacl yr wythnos - cystadlu'r Aelwydydd nos Sadwrn, a bydd wythnos Edryd yn siŵr o hedfan.

Yn Llywydd ar y mudiad ers mis Tachwedd, meddai Edryd am ei rôl:

"Rwy'n mwynhau mas draw! Rwy wedi cael profiadau gwerthfawr yn barod - mynychu cyfarfodydd yr Urdd, cwrdd â swyddogion y mudiad ac ymweld â chystadlaethau cenedlaethol chwaraeon yr Urdd. Hon ydy'r wythnos pan mae'r Urdd yn llygaid y cyhoedd, ac rwy'n hyderus y bydd yr Eisteddfod eleni yn llwyddiannus iawn o ganlyniad i waith caled y bobl leol, a bydd gwir dalentau plant a phobl ifanc Cymru yn cael eu harddangos ar lwyfan yr Urdd - gwell talent na welwch chi ar unrhyw raglen deledu fel *The X Factor* neu *Britain's got Talent*! Rwy'n falch iawn cael bod yn rhan o'r mudiad a bod y mudiad yn rhan ohonof i!"

Meddai Efa Gruffudd Jones, Prif Weithredwr Urdd Gobaith Cymru;
''Mae wedi bod yn bleser cydweithio gydag Edryd dros y misoedd diwethaf, ac rwy'n dymuno pob hwyl iddo yn ei ddyletswyddau'r wythnos yma. Mae'n destun balchder i'r Urdd ein bod yn gallu cynnig cyfrifoldeb i'n gwirfoddolwyr ifanc, gan gynnig y cyfle iddyn nhw fod yn lladmerydd dros y mudiad, ac ennill profiadau gwerthfawr."

Is Lywyddion yr Urdd eleni yw Eirian Jones o Ynys Môn a Bethan Mair Williams o Gaerdydd.

Diwedd

Manylion pellach: Siân Eleri Davies 07976 330360 neu Manon Llwyd 07976 330361

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant ac ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yw un o wyliau ieuenctid celfyddydol mwyaf Ewrop.
- Bydd 40,000 o bobl ifanc yn cystadlu mewn amrywiaeth o gystadlaethau gan gynnwys llefaru unigol, corau, dawns, celf a chrefft, cyfansoddi a barddoniaeth.
- Ar lwyfan yr Eisteddfod y gwnaeth sêr fel Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi a Daniel Evans fwrw eu prentisiaeth.
- Mae'r Eisteddfod yn denu 100,000 o ymwelwyr, 15,000 o gystadleuwyr a bron i filiwn o wylwyr teledu.
- Mae'r Eisteddfod yn cynnal rhaglen lawn o gystadlaethau yn ddyddiol rhwng 11.00 y bore hyd at 5.00 y prynhawn, a chystadlaethau gyda'r nos ar y nosweithiau Llun, Iau, Gwener a Sadwrn.
- Cynhelir Eisteddfod 2011 yn Abertawe a'r Fro ac Eisteddfod 2012 yn Eryri.

PRESS RELEASE
Monday 31 May 2010

PRESIDENT'S PACKED WEEK

One of the busiest people on the Maes this week at Urdd Gobaith Cymru's National Eisteddfod in Ceredigion is the organisation's President, Edryd Eynon.

Says Edryd:
"I'm really looking forward to a packed week. My main duty will be to present the John and Ceridwen Medal Ceremony in the Pavilion on Thursday evening, and it will be an honour to recognise the contribution of one of the Urdd's diligent volunteers. There are a few receptions during the week, and I also look forward to relaxing on the Maes. Tomorrow the children of Ysgol Brynach will compete in the Parti Deulais, so I'll definitely be supporting them."

Edryd is a teacher at Ysgol Brynach, Llanboidy. A former pupil of Ysgol Beca, Efail Wen and Ysgol y Preseli, he knows all about competing at the Urdd Eisteddfod. The highlight of his competing days was winning the Chwarter Awr o Adloniant (Fifteen Minutes of Entertainment) with Adran Ffynon Wen in 1998. He is now one of the Adran's leaders, and even though Ffynnon Wen weren't successful in this year's Eisteddfod, Edryd is looking forward to seeing other adrannau and schools from Pembrokeshire and Cylch Cwm Taf do well on the stage in Llanerchaeron.

Add to this enjoying the evening shows, keeping an eye on his main interest - the recitation competitions, crossing his fingers for winners in all the main ceremonies and looking forward to the week's pinnacle, the Aelwydydd competitions on the Saturday evening, and Edryd's week is sure to fly.

President since November, Edryd says he is enjoying his role:

“I’m having a great time! I’ve has many valuable experiences, meeting the Urdd officials, attending Urdd meetings and enjoying the national sports competitions. This is the week when the Urdd is most definitely in the public’s eye, and I’m confident that the Eisteddfod will be a fabulous success, thanks to the hard work of the local volunteers. The talent seen on this stage in Llanercheron will top any talent on *The X Factor* or *Britain's Got Talent*! I’m extremely proud to be part of this organisation, and that the Urdd is a part of me!”

Efa Gruffudd Jones, Urdd Gobaith Cymru’s Chief Executive said;
‘‘It’s been a pleasure working with Edryd over the past few months and I wish him well in all his duties this week. It’s great that the Urdd can offer young people a chance to take responsibility and be a figure head for the organisation, and gain valuable experience.’’

The Urdd's two Vice Presidents are Eirian Jones from Anglesey and Bethan Mair Williams form Cardiff.

Ends

Further information: Siân Eleri Davies 07976 330360 or Manon Llwyd 07976 330361

- Urdd Gobaith Cymru is Wales’ leading youth organisation.
- The Urdd has given children and young people exciting opportunities for over 80 years.
- The Urdd National Eisteddfod is one of the largest cultural youth festival in Europe.
- 40,000 young people will be competing in various competitions including recitation, choral singing, dance, arts and craft, composition and poetry.
- The Eisteddfod attracts over 100,000 visitors, 15,000 competitors and almost a million television viewers.
- Welsh stars such as Bryn Terfel, Ioan Gruffudd, Cerys Matthews, Aled Jones, Shân Cothi and Daniel Evans all gained valuable performing experience on the Urdd stage.
- The Eisteddfod offers wall to wall competitions between 11.00 - 5.00 and evening competitions on Monday, Thursday, Friday and Saturday.
- The Eisteddfod will be held in Swansea in 2011 and in Eryri in 2012.